

CYDBWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2021.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.M. Birch (Cadeirydd); Cynghorwyr C.A. Cave, A.M. Collins, R. Crowley, O. Griffiths, K.F. McCaffer ac L.O. Rowlands

Cynrychiolwyr o'r Sector Gwirfoddol: L. Newton (Gweithredu dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro) ac H. Smith (Barnardos).

477 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

478 PENODI IS-GADEIRYDD ANRHYDEDDUS O GYNRYCHIOLWYR Y SECTOR GWIRFODDOL AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG –

CYTUNWYD – Y dylid gohirio'r eitem tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor, i'w gynnull cyn gynted ag y bo'n ymarferol cyn y cyfarfod y bwriedir ei gynnal ym mis Ionawr, 2022.

479 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan R. Connor (Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg) a'r Cynghorydd A. Barnaby (Cynrychiolydd o Gynghorau Tref a Chymuned).

480 COFNODION –

CYTUNWYD – Y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin, 2021 fel cofnod cywir, yn amodol ar nodi roedd y Cynghorydd O. Griffiths yn bresennol yn y cyfarfod fel Aelod o'r Pwyllgor (yn hytrach na Hefyd yn bresennol), a sillafwyd enw'r Cynghorydd L.O. Rowlands yn anghywir lle'i restrwyd yn Bresennol.

No.

481 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

482 ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU GWIRFODDOL
MORGANNWG 2020/21 (GGM) –

Gan nad oedd y Cynrychiolydd o Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg yn gallu mynychu'r cyfarfod er mwyn cyflwyno'r adroddiad, wedi hynny

CYTUNWYD – Y dylid gohirio Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg 2020/21 tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor, i'w gynnull cyn gynted ag y bo'n ymarferol cyn y cyfarfod y bwriedir ei gynnal ym mis Ionawr, 2022.

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn ystyried Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg 2020/21.